# Prosiect Wylfa Newydd

## Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Medi 2014

## Prosiect Wylfa Newydd – Gorsaf bŵer niwclear newydd a gynigir ar Ynys Môn

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn yn ymwneud â chynigion Pŵer Niwclear Horizon Cyfyngedig (Horizon) i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn – Prosiect Wylfa Newydd. Mae'n egluro sut byddwn ni'n ymgynghori'n ffurfiol â'r gymuned leol, yn ogystal â'r cymunedau, y grwpiau a'r unigolion rydyn ni'n teimlo y gallai ein cynigion o bosibl effeithio arnyn nhw neu fod o fudd iddyn nhw.

## Pwy ydy Horizon, a beth ydy Prosiect Wylfa Newydd?

Mae grŵp cwmnïau Horizon, sy'n berchen i Hitachi, Ltd., yn datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear i helpu i ddiwallu angen y DU ar gyfer ynni carbon isel, diogel a fforddiadwy. Gall pŵer niwclear chwarae rhan hollbwysig o ran diwallu'r sialens o gynnal cyflenwadau sicr o ynni ar gyfer y DU, ar yr un pryd â mynd i'r afael â bygythiad byd-eang newid yn yr hinsawdd drwy gyrraedd targedau lleihau allyriadau.

Fel rhan o'n Prosiect Wylfa Newydd, rydyn ni'n cynnig adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU a fydd yn cael eu cyflenwi gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd., nodweddion a strwythurau ategol a gwaith cysylltiedig (yr Orsaf Bŵer), ynghyd â datblygiadau cysylltiedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni hyn. Bydd yr Orsaf Bŵer yn darparu o leiaf 2,700 megawat (MW) o

drydan, sy'n ddigon o bŵer ar gyfer oddeutu 5 miliwn o gartrefi.

Bydd prif waith a strwythurau'r Orsaf Bŵer weithredol (a fydd yn cael ei galw yn 'Wylfa Newydd'), i'r gorllewin o Gemaes, wrth ymyl gorsaf bŵer bresennol Magnox, ar benrhyn Wylfa yng ngogledd Ynys Môn. Rydyn ni'n bwriadu cynhyrchu trydan yn Wylfa Newydd erbyn hanner cyntaf y 2020au.

Pŵer Niwclear Horizon –
Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

Rydyn ni'n credu bod taer angen pŵer niwclear newydd yn y DU er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r sialens hollbwysig a chymhleth o ddarparu dyfodol ynni cynaliadwy. Byddwn yn darparu ynni sicr, fforddiadwy a charbon isel ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Ein cenhadaeth yw adeiladu cwmni cyfleustodau niwclear newydd yn y DU a fydd ar flaen y gad, gan ddatblygu, adeiladu a gweithredu Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw.

Beth yw Datganiad o Ymgynghori Cymunedol a sut mae'n berthnasol i'r broses o roi cydsyniad?

Mae'r Orsaf Bŵer yn brosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol at ddibenion Deddf Cynllunio 2008 ac felly bydd angen i ni gyflwyno cais i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd

i gael gorchymyn cydsyniad datblygu o dan y Ddeddf honno i'w gymeradwyo.

Mae ymgynghori'n rhan bwysig o'r broses cynllunio a datblygu, ac mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn ymgynghori'n helaeth â'r gymuned leol, awdurdodau lleol, cyrff statudol a phobl sydd â diddordeb yn y tir mae'r prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol yn debyg o effeithio arno, yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion yn ehangach. 'Ymgynghoriad cyn ymgeisio' ydy'r enw ar y broses a rhaid gwneud hyn cyn i'r Arolygiaeth Gynllunio allu derbyn cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn benodol, mae adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn paratoi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol sy'n egluro sut byddan nhw'n ymgynghori â'r bobl sy'n byw wrth ymyl safle'r prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol. Felly mae'n rhan bwysig o'r broses cydsyniad ein bod yn cynnal ymgynghoriad effeithiol ynghylch ein cynigion cyn gwneud cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio 2008, rydyn ni wedi ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar fersiwn drafft o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ac rydyn ni wedi ystyried ymateb y Cyngor.

Mae'r Datganiad hwn o Ymgynghori Cymunedol, sydd ar gael ar ein gwefan, yn cael ei hysbysebu mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol sy'n cael eu dosbarthu'n ddyddiol neu'n wythnosol ar draws Ynys Môn a Gogledd

Cymru a'r bwriad yw helpu aelodau o'r gymuned i ddeall sut a beth fyddwn ni'n ymgynghori â nhw
yn ei gylch.

Mae'n egluro:


- Beth rydyn ni'n cynnig ei ddatblygu – gan gynnwys disgrifiad cryno o:
  - Y broses cydsyniad datblygu gan gynnwys sut mae effeithiau amgylcheddol yn cael eu hasesu er mwyn nodi manteision ac anfanteision posibl prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol;
  - Prosiect Wylfa Newydd;
- Pryd byddwn ni'n ymgynghori;
- Ble byddwn ni'n ymgynghori ac â phwy;
- Sut byddwn ni'n ymgynghori â phobl, grwpiau a mudiadau cymunedol am Brosiect Wylfa Newydd; a
- Sut mae modd i bobl ymateb i'r ymgynghoriad a chanfod sut mae'r adborth wedi cael ei ystyried.

Does dim modd cynnwys rhai elfennau o Brosiect Wylfa Newydd yn y cais am orchymyn cydsyniad datblygu ac yn lle hynny byddan nhw'n rhan o geisiadau cynllunio, a'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol fydd yn penderfynu ar y rheini, neu drwy brosesau cydsyniad eraill. Felly ni fydd y gofynion o dan Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio yn berthnasol i'r elfennau hynny. Serch hynny, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r gymuned leol ac i randdeiliaid eraill, byddwn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am yr elfennau hynny o Brosiect Wylfa Newydd yn ystod ein hymgynghoriad cyn ymgeisio. Ar ben hynny, efallai byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori ac

ymgysylltu wedi'u targedu ar wahân ar faterion penodol neu gyda grwpiau penodol.

Byddwn ni'n sicrhau bod yr ymgynghori'n ystyrlon, yn gynhwysol ac yn glir drwy ddarparu gwybodaeth mae modd ei deall yn hawdd er mwyn ennyn sylwadau adeiladol sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd. Bydd y deunyddiau ymgynghori'n egluro pa elfennau o'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'r rhai dydyn ni ddim yn ymgynghori yn eu cylch, ac yn gofyn am safbwyntiau'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i ddefnyddio Adweithyddion Dŵr Berwedig Uwch y DU yn ein Gorsaf Bŵer.

Ffigur 1: Lleoliad dangosol ein Gorsaf Bŵer



Y Broses Cydsyniad Datblygu

Mae ymgynghori cyn ymgeisio yn bwysig yn y broses cydsyniad datblygu ac archwilio gan ei fod yn rhoi cyfle i ni ddeall pryderon y bobl byddwn ni'n ymgynghori â nhw a cheisio dod o hyd i ffyrdd o liniaru effeithiau posibl y datblygiad cyn cyflwyno ein cais i'r Arolygiaeth Gynllunio ei archwilio. Bydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn fodlon ein bod wedi cynnal ymgynghoriad effeithiol cyn ymgeisio, yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008. Ar ôl archwilio'r cais, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyflwyno argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi gorchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod polisïau mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, ar ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol canlynol:

- Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (EN-1)
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) sy'n dynodi safle Wylfa fel un o nifer fach o safleoedd yn y DU mae'r Llywodraeth yn credu a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd.

Gyda’i gilydd, mae’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn yn pennu bod taer angen capasiti newydd i gynhyrchu trydan, gan gynnwys niwclear. Mae EN-6 yn datgan yn glir y dylid asesu cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar y sail “bod yr angen am seilwaith o’r fath wedi cael ei ddangos” ac mae’n mynd ymlaen i ddynodi bod y safle yn Wylfa yn un a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. O’r herwydd, fyddwn ni ddim yn ymgynghori ynghylch yr egwyddor o bŵer niwclear, na pha mor addas yw’r Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd, yn lle hynny bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar gynigion neu ddewisiadau penodol rydyn ni’n eu cyflwyno.

<u>Sut Mae’r Effeithiau Amgylcheddol Yn Cael Eu Hasesu</u>

Mae’r Orsaf Bŵer a gynigir yn cael ei dosbarthu fel datblygiad asesiad o’r effaith amgylcheddol o dan Atodlen 1 i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol) 2009. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid paratoi datganiad amgylcheddol i’w gyflwyno gyda’r cais am orchymyn cydsyniad datblygu. Roeddem ni wedi cyflwyno cais cwmpasu i’r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (sef rhagflaenydd yr Arolygiaeth Gynllunio) ym mis Tachwedd 2009. Cyhoeddodd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith farn cwmpasu ym mis Ebrill 2010, a oedd yn gosod ei farn yn ffurfiol ynghylch pa wybodaeth dylid ei

darparu yn ein datganiad amgylcheddol. Ers hynny rydyn ni wedi cwrdd â'r Arolygiaeth Gynllunio i drafod sut mae ein cynigion wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd ers hynny ac rydyn ni wedi dod i'r casgliad nad ydy'r Prosiect wedi newid digon i gyfiawnhau newid y cynnwys a oedd wedi cael ei gynnig ar gyfer ein datganiad amgylcheddol.

Byddwn yn ymgynghori ar wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ar y ddau brif gam o'r ymgynghoriad. Ar bob cam, bydd hon yn cael ei chynnwys mewn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, a fydd yn cyflwyno ein dealltwriaeth bresennol o effeithiau amgylcheddol posibl y cynigion. Bydd canfyddiadau cyflawn ein hasesiad o'r effaith amgylcheddol wedyn yn cael eu cynnwys yn y datganiad amgylcheddol a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

## Prosiect Wylfa Newydd

## Beth Sy'n Cael Ei Gynnig?

Y prif ddatblygiad parhaol fydd yr Orsaf Bŵer (sydd wedi'i chynnwys mewn cais ar gyfer gorchymyn cydsyniad datblygu), a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU ac adeiladau cefnogol cysylltiedig ynghyd â'r tyrbinau stêm, adeiladau i storio gwastraff lefel ganolraddol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro, generaduron trydanol a gwaith cysylltiedig (fel morgloddiau a seilwaith dŵr oeri) a strwythurau a nodweddion ategol (fel ffyrdd a gwaith tirweddu).

Byddai hefyd angen darparu cyfleusterau oddi ar y safle er mwyn gweithredu'r Orsaf Bŵer (fel canolfan rheoli arall mewn argyfwng a labordy arolygu), byddai'r rhain yn lleol ond ar wahân i safle'r orsaf bŵer.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai nifer o gompowndiau adeiladu dros dro yn cael eu creu. Disgwylir y bydd cyfleuster dadlwytho morol yn cael ei ddefnyddio er mwyn danfon nwyddau'n uniongyrchol i safle'r orsaf bŵer dros y môr, a bydd hefyd angen gwella'r ffyrdd, gan gynnwys ar hyd yr A5025 rhwng y Fali a Wylfa.

Mae'n debyg y bydd angen nifer o ddatblygiadau cysylltiedig er mwyn cefnogi'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle ac o leiaf un ganolfan logisteg, a byddai cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio i'r rhain o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae angen cysylltu'r Orsaf Bŵer a rhwydwaith trawsyrru trydan y grid cenedlaethol ac mae National Grid yn ymgynghori ynghylch hyn ar wahân.

<u>Effeithiau Posibl</u>

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn golygu buddsoddiad a manteision sylweddol (biliynau o bunnoedd) i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru. Byddwn ni'n creu miloedd o swyddi adeiladu, a allai gyrraedd 8,500 yn ystod y cyfnodau prysuraf yn Safle'r Orsaf Bŵer, yn ogystal ag yn creu ac yn cefnogi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a

chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi mewn diwydiannau a gwasanaethau cefnogi. Pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith disgwylir y bydd yn cyflogi hyd at 1,000 o weithwyr a rhagwelir y bydd angen tua 1,000 o weithwyr ychwanegol yn ystod cyfnodau segur a fydd wedi'u cynllunio er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw.

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn brosiect adeiladu mawr hefyd, gyda llawer o weithgareddau adeiladu'n digwydd ar safle'r orsaf bŵer a'r ardal gyfagos dros nifer o flynyddoedd. Byddai'r Orsaf Bŵer yn dod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd ar ôl ei hadeiladu.

Felly bydd y deunyddiau ymgynghori rydyn ni'n eu darparu yn amlinellu ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch ein cynigion cyn i ni gyflwyno cais am orchymyn cydsyniad datblygu. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau posibl y cynigion (gan gynnwys effeithiau cronnus ein Prosiect gyda datblygiadau eraill a fydd yn digwydd dros yr un cyfnod), gan edrych ar effeithiau economaidd-gymdeithasol, yr iaith Gymraeg, hamdden, traffig a thrafnidiaeth, sŵn, ansawdd yr aer, pridd, hydroleg, ecoleg, llanw a cherrynt y môr a golygfeydd presennol. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi ar ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl drwy gynigion lliniaru fel gwaith tirweddu, ymysg pethau eraill, i wneud iawn am yr effeithiau ar gynefinoedd naturiol. Bydd ein Prosiect hefyd yn cynnwys mesurau i wella'r manteision posibl, er enghraifft drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol a hyfforddiant.

Ffigur 2: Yr amserien a'r cyfnodau a gynigir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd




## Pryd byddwn ni'n ymgynghori ynghylch Prosiect Wylfa Newydd?

Rydyn ni'n bwriadu cynnal dau brif gam yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, cyn cyflwyno ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer yr Orsaf Bŵer. Rydyn ni'n bwriadu cynnal y cam ffurfiol cyntaf (Cam Un) rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2014, a disgwylir y bydd yr ail gam ffurfiol (Cam Dau) yn cael ei gynnal tua diwedd 2015. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu yn 2017.

Efallai bydd angen cynnal digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu i greu deialog gyda'r gymuned rhwng camau ffurfiol yr ymgynghori cyn ymgeisio. Byddai digwyddiadau o'r fath yn canolbwyntio ar faterion penodol neu'n targedu grwpiau penodol, a byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein hymgysylltiad cymunedol rheolaidd drwy gymorthfeydd agored a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd, rhwng camau'r ymgynghoriad cyn ymgeisio a thu hwnt i hynny.

Ffigur 3: Camau Ymgynghori ac Ymgysylltu



Ble rydyn ni'n ymgynghori ac â phwy?

Byddwn ni'n ymgynghori â'r cymunedau a nodir yn Ffigur 5 isod, ar draws Parthau A, B ac C. Serch hynny, mae croeso i unrhyw un gyflwyno adborth ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a bydd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn eang, er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn effeithiol ac o fewn cyrraedd pawb.

Bydd ein proses ymgynghori'n cael ei chynnal dros dri 'pharth' (gweler Ffigur 5), sef:

- Parth A – Ynys Môn, sef yr ardal sydd fwyaf tebyg o weld effeithiau uniongyrchol Prosiect Wylfa Newydd
- Parth B – Ardal Gwynedd (Arfon), sy'n cynnwys Bangor a Chaernarfon; a
- Parth C – Gogledd Orllewin Cymru, fel y diffinnir yr ardal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canolfannau allweddol o ran poblogaeth a busnesau, fel Llandudno a Phorthmadog.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd gan drigolion, cymunedau, grwpiau a'u rhanddeiliaid ofynion gwahanol o ran gwybodaeth a bydd ein proses ymgynghori yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, ym Mharth A, rydyn ni'n disgwyl y bydd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol y gwaith adeiladu a gweithredu, ond ym Mharth C, efallai y bydd mwy o ddiddordeb mewn materion economaidd a chymdeithasol ehangach, fel creu swyddi.

Rydyn ni'n bwriadu targedu digwyddiadau ymgysylltu'n


briodol at y rheini sydd fwyaf tebygol o weld effeithiau Prosiect Wylfa Newydd, gan gydnabod efallai y bydd y rheini a fydd yn gweld effeithiau llai uniongyrchol hefyd eisiau cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori.

Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach a'u cynrychiolwyr, byddwn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau penodol, busnesau lleol, cynghorau cymuned a mudiadau eraill i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r broses ymgynghori. Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant, mae copi o hon wedi cael ei lwytho i fyny ar ein gwefan ac mae copïau caled ar gael ar gais. Nod hon yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda mudiadau porthor ar draws y gymuned i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd rhesymol i gael gafael ar wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ac ymateb i'r ymgynghoriad os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Dyma'r prif grwpiau ar gyfer y Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant:

- pobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl sy'n economaidd anweithgar
- cymunedau o amddifadedd cymdeithasol
- pobl anabl a phobl ag anawsterau dysgu
- grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- grwpiau sy'n cynrychioli crefyddau a chredoau eraill
- y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol
- perchnogion cartrefi gwyliau

# Ffigur 4: Parthau ymgynghori



Sut byddwn ni’n ymgynghori?

Bydd pob cam ffurfiol o’r ymgynghoriad yn para tua deg wythnos a bydd yn cael ei strwythuro o amgylch cyfres o ddigwyddiadau arddangos a sesiynau galw draw sy’n rhoi cyfle i bobl gwrdd â’n tîm a gofyn cwestiynau. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar draws Parthau A, B ac C a byddan nhw’n cael eu targedu at y rheini y mae disgwyl y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn effeithio arnyn nhw fwyaf.

Byddwn yn cynnal nifer o arddangosfeydd mewn gweithleoedd gyda’r cyflogwyr lleol mwyaf er mwyn ymgynghori â phobl na fydden nhw fel arall o bosibl yn gallu dod i arddangosfa. Bydd y rheini sydd â diddordeb ym Mhrosiect Wylfa Newydd hefyd yn gallu cael gafael ar wybodaeth mewn llyfrgelloedd lleol ac adeiladau dinesig eraill, er na fydd staff yn yr arddangosfeydd hyn oni nodir fel arall.

Bydd y ddau brif gam o’r ymgynghoriad yn cynnwys trosolwg, crynodeb a deunyddiau arddangos yn Gymraeg a Saesneg, a byddan nhw wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei darllen. Bydd ein cylchlythyrau dwyieithog hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd Prosiect Wylfa Newydd a bydd y rhain yn parhau i gael eu dosbarthu’n rheolaidd i bob tŷ ar Ynys Môn. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau lle bydd staff ac rydyn ni’n croesawu adborth i’r ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ein dogfennau trosolwg a chrynodeb yn cynnwys manylion ynghylch sut mae gwneud cais am wybodaeth

mewn print bras ac mae gennym rif rhadffôn er mwyn helpu gydag ymholiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar 0800 954 9516.

Bydd ein harddangosfeydd yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth fanylach sydd ar gael gan gynnwys mapiau a diagramau cefnogol, y dogfennau ymgynghori llawn, adroddiadau gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol a gwybodaeth dechnegol berthnasol arall. Ar ben hynny, bydd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael ar ein gwefan www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad, lle byddwn yn rhoi cynnig i bobl gofrestru a chyflwyno sylwadau ar y cynigion.

## Sut Byddwn Ni'n Hysbysebu'r Ymgynghoriad?

Byddwn ni'n defnyddio nifer o ffyrdd o gyfathrebu â'r bobl rydyn ni eisiau ymgynghori â nhw ynghylch y broses ymgynghori a byddwn yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i gael gwybod mwy a chymryd rhan. Y rhain fydd:

- Cylchlythyrau – mae ein Newyddion i'r Gymuned yn cael ei ddosbarthu i oddeutu 33,000 o gartrefi ar draws Ynys Môn. Bydd yn cynnwys manylion ynghylch yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut mae cymryd rhan a lle mae modd cael gafael ar ragor o wybodaeth. Byddwn yn cyhoeddi rhifyn cyn ymgynghori cyn bob prif gam o'r ymgynghoriad.
- Hysbysebion yn y wasg – Byddwn yn rhoi hysbysebion a fydd yn rhoi manylion camau'r ymgynghoriad, gan gynnwys lleoliadau ac amser digwyddiadau ym mhob cyhoeddiad Cymraeg a Saesneg priodol ee papurau newydd.

- Datganiadau i'r wasg – Bydd digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cyhoeddi drwy ddatganiadau i'r wasg a byddwn ni'n cynnig sesiynau briffio i'r wasg ar gyfer pob cyhoeddiad lleol, eto yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Posteri – Bydd posteri'n cael eu rhoi mewn adeiladau dinesig fel llyfrgelloedd a threfi/pentrefi a byddan nhw'n cael eu rhoi i grwpiau a mudiadau cymunedol. Bydd y rhain yn rhoi manylion lleoliadau digwyddiadau a sut mae modd i bobl gael gwybod mwy am yr ymgynghoriad.
- Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd – Mae hwn yn grŵp cyswllt rhanddeiliaid annibynnol a'i nod yw sianelu gwybodaeth gennym ni drwy gynrychiolwyr cymunedol i'r gymuned drwyddi draw. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddechrau pob cam o'r prif ymgynghoriad er mwyn trafod sut gall pobl gymryd rhan.
- Rhanddeiliaid, grwpiau a mudiadau – Byddwn ni'n ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, cyrff a mudiadau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a, phan fo'n briodol, byddwn yn rhoi manylion ynghylch sut gall eu haelodau gymryd rhan.
- Gwefan – Bydd pob dogfen ymgynghori a manylion ynghylch pob cam o'r ymgynghoriad, gan gynnwys lleoliad ac amser y digwyddiadau, ar gael ar ein gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad a byddwn yn cyfeirio at y wefan yn ein holl lenyddiaeth.
- Cyfryngau cymdeithasol – I ddechrau byddwn ni'n defnyddio Trydar i roi cyhoeddusrwydd i bob cam o'r ymgynghoriad gan gyflwyno sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill fel sy'n briodol. Byddwn hefyd yn

adolygu'r gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol i nodi unrhyw faterion allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'n Prosiect Wylfa Newydd.
- Cyfryngau eraill – Byddwn yn cysylltu â chyfryngau lleol (ee gorsafoedd radio a phapurau newydd) cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad i sicrhau bod pobl leol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Sut gallaf ymateb?

Mae sawl ffordd o gyflwyno sylwadau yn ystod y broses ymgynghori:

- Casglwch a llenwi ffurflen adborth o un o'n harddangosfeydd cyhoeddus neu ein pwyntiau gwybodaeth a'i dychwelyd atom mewn arddangosfa gyhoeddus neu yn yr amlen radbost sy'n cael ei darparu
- llenwch y ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan: www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad

Ar ben hynny, i gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad bydd pobl yn gallu cysylltu â ni drwy Linell Gymorth Radffôn Wylfa Newydd ar 0800 954 9516, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Beth Fydd Yn Digwydd I Fy Ymatebion?

Byddwn yn ceisio cydnabod pob ymateb a gawn. Bydd y sylwadau sydd wedi cael eu cyflwyno'n electronig yn creu derbynneb cadarnhau'n awtomatig. Pan fo'n bosibl, byddwn hefyd yn cydnabod y sylwadau a ddaw i law drwy e-bost a phost. Bydd pob ymateb yn cael ei

gofnodi, ei adolygu a'i ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei storio'n ddiogel ar ein rhan.

Byddwn ni'n cynhyrchu Adroddiad Ymgynghoriad Interim a fydd yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymgynghoriad cyn ymgeisio Cam Dau, a fydd yn amlinellu'r ymatebion perthnasol a ddaeth i law a sut roedden ni wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect.

Bydd Adroddiad Ymgynghoriad Terfynol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu, yn egluro sut mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ein Prosiect Wylfa Newydd a phan fyddwn ni ddim yn newid ein cynigion i adlewyrchu'r sylwadau, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny.

Ymgynghori Mawr Arall

Efallai bydd hyrwyddwyr Prosiectau Seilwaith eraill sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol yn y parthau ymgynghori yn ymgynghori â'r gymuned leol. Rydyn ni'n gwybod bod National Grid yn datblygu cynigion ar gyfer uwchraddio ei systemau trawsyrru a byddwn yn ceisio osgoi trefnu digwyddiadau ymgynghori a fydd yn cyd-daro ag ymgynghoriadau eraill pan fo hynny'n bosibl.

Os hoffech chi fersiwn testun mawr neu fersiwn arall o'r ddogfen hon, ffoniwch ni ar 0800 954 9516 neu ewch i'n gwefan:
www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad

Cysylltu Â Ni:

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu adborth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a’n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio 0800 954 9516 neu e-bostio ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE

Ff +44 (0) 845 300 6816

www.horizonnuclearpower.com

Mae’r holl ddeunydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd o flaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo’r deunydd hwn heb ganiatâd dorri hawliau nod masnach, hawlfraint a hawliau perchnogol eraill, yn ogystal â statudau sifil a throseddol. Ni cheir defnyddio’r deunydd mewn unrhyw ffordd sy’n amharu ar unrhyw nod masnach, hawlfraint neu hawliau perchnogol eraill, ac mae Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd yn cadw’r holl hawliau sy’n gysylltiedig ag unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o’r fath.